
# MARGAM CASTLE REGENERATION ADFYWIO CASTELL MARGAM

## THE PRESENT
## Y PRESENNOL

SIGNIFICANCE / Arwyddocâd



GROUND FLOOR PLAN / CYNLLUN LLAWR GWAELOD

- Very High
- High
- Medium
- Low
- Neutral
- Detrimental

*This plan is not to scale*

General Notes:

- Principle interiors given high or very high significance due to their status, public access and surviving / restored features, despite considerable damage in the fire.
- Historic fireplaces are of medium, high or very high significance where these survive insitu.
- Timber sash windows within stone mullioned and transomed frames were installed post-fire and are detrimental to the significance of the Castle.
- Ceiling heights in principal rooms are detrimental to the significance of these spaces.

- Uchel Iawn
- Uchel
- Canolig
- Isel
- Niwtral
- Niweidiol

*Nid yw'r cynllun hwn wrth raddfa*

Nodiadau Cyffredinol:

- Rhoddir arwyddocâd uchel neu uchel iawn i'r prif nodweddion mewnol oherwydd eu statws, mynediad cyhoeddus a nodweddion sydd wedi goroesi/adfer, er gwaethaf difrod sylweddol yn y tân.
- Mae llefydd tân hanesyddol o arwyddocâd canolig, uchel neu uchel iawn lle mae'r rhain wedi goroesi yn y fan a'r lle.
- Gosodwyd ffenestri codi pren o fewn fframiau pyst carreg a thrawslath ar ôl y tân ac maent yn niweidiol i arwyddocâd y Castell.
- Mae uchder nenfydau yn y prif ystafelloedd yn niweidiol i arwyddocâd y mannau hyn.

## Current Use and Significance

There are 30,000 listed buildings in Wales. Less than 2% of these are Grade I listed buildings of exceptional interest. Margam Castle is one of these special buildings.

Neath Port Talbot County Borough Council own the freehold to Margam Castle. The large rooms in the West of the main Castle are used for events and filming. Much of the rest of the castle is derelict with minimal finishings following a devastating fire in the 1970s. There is an extensive bat roost through the basement and South- East Tower. The castle is a Tudor Gothic style castellated mansion built of brick and faced on the exterior in sandstone ashlar. The roofs were renewed after the devastating fire and are covered with slate. The timber sash windows are also modern.

To the east is the group of service buildings, which adjoin the house and are arranged to create three additional courtyards. This range now houses the café, gift shop and bathrooms available for visiting members of the public, as well as rooms used by the Friends of Margam Park, businesses which operate in the castle and grounds, the Castle's management staff, and related storage.

We have assessed the buildings, historic plans, written records, and photographs to assess the significance of the building fabric and where potential interventions for the new future of Margam Castle are appropriate. This assessment reviews the evidential value, historical value, aesthetic value and communal value. The results of these assessments are shown in the plan above

## Defnydd Cyfredol ac Arwyddocâd

Ceir 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Mae llai na 2% o'r rhain yn adeiladau rhestredig Gradd I o ddiddordeb eithriadol. Mae Castell Margam yn un o'r adeiladau arbennig hyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n berchen ar rydd-ddaliad Castell Margam. Defnyddir yr ystafelloedd mawr yng ngorllewin y prif Gastell ar gyfer digwyddiadau a ffilmio. Mae llawer o weddill y castell yn ddiffaith gydag ychydig iawn o waith caboli ar ôl y tân dinistriol yn y 1970au. Ceir clwyd ystlumod sylweddol drwy'r llawr isaf a Thŵr y De-Ddwyrain. Mae'r Castell yn blasty castellog mewn arddull Gothig Tuduraidd a adeiladwyd o frics gyda'r wedd allanol mewn tywodfaen nadd. Adnewyddwyd y toeau ar ôl y tân dinistriol ac maent wedi'u gorchuddio â llechi. Mae'r ffenestri codi pren hefyd yn fodern.

I'r dwyrain ceir grŵp o adeiladau gwasanaethau, sy'n ffinio â'r tŷ ac sydd wedi'u trefnu i greu tri chwrt ychwanegol. Mae'r ystod hon bellach yn gartref i'r caffi, siop anrhegion a thoiledau'r cyhoedd, yn ogystal ag ystafelloedd a ddefnyddir gan Ffrindiau Parc Margam, busnesau sy'n gweithredu yn y castell a'r tiroedd, staff rheoli'r Castell a mannau storio.

Rydym wedi asesu'r adeiladau, y cynlluniau hanesyddol, y cofnodion ysgrifenedig a'r ffotograffau er mwyn asesu arwyddocâd adeiladwaith yr adeilad a lle bo ymyriadau posibl ar gyfer dyfodol newydd Castell Margam yn addas. Mae'r asesiad hwn yn adolygu'r gwerth tystiolaethol, y gwerth hanesyddol, y gwerth esthetig a'r gwerth cymunedol. Dangosir canlyniadau'r asesiadau hyn yn y cynllun uchod.



*Elaborate chimney stacks showing a range of different motifs*

*Corn simdde cywrain sy'n dangos amrywiaeth o fotiffau gwahanol*



*Modern ceiling structure visible throughout the ground floor – modern steel joists and timber rafters with plywood panels above*

*Strwythur nenfwd modern i'w weld drwy'r llawr gwaelod - distiau dur modern a thrawstiau pren gyda phaneli pren haenog uwchben*



*Part infilled door between the west range and main stair hall*

*Drws wedi'i fewnlenwi'n rhannol rhwng yr ochr orllewinol a neuadd y prif risiau*



*State on First Floor. Surviving roof truss, which demarcates the line of the historic wall between the two rooms signalled by the two simple stone fireplaces*

*Cyflwr y Llawr Cyntaf. Cyplau to sydd wedi goroesi, sy'n nodi llinell y wal hanesyddol rhwng y ddwy ystafell gyda'r ddau le tân carreg syml yn arwydd o hynny.*



*Basement and home to many bats. Octagonal brick pier and vault below the main staircase*

*Llawr isaf a chartref nifer o ystlumod. Pier brics wythonglog a daeargell o dan y prif risiau*

## The Building Condition and Repairs

We have undertaken a building condition survey. The overall condition of the property is split between those areas that are in regular use, which are considered to be 'Fair', and those areas which are empty, which are considered to be 'Very Poor'. Intervention is needed to prevent accelerated decay across the Castle fabric. Full repairs to the building fabric cost around £9m. Key issues with the building are:

### Roof
The introduction of a new roof in the 1990s has protected much of the internal fabric and has remained in good condition, with the exception of the North pitch roof on the main Castle and the flat roof around the lantern. These need to be re-roofed to address widespread issues with missing tiles, misalignment, broken leadwork and ponding.

### Rainwater goods
Throughout the building, water ingress is consistently related to poorly maintained rainwater goods, mature plant growth on masonry and no repointing programme of opening joints. When there is heavy rain, there are places where water can actively be seen entering the building.

### The walls and windows
The walls suffer from a lack of the correct lime pointing meaning that water is getting through causing damage. The North and East elevation get the least sun so they do not dry out as well as the other two. However the South and West elevations get the most exposure to the prevailing winds causing their deterioration. In some places metal corrosion causes stone work to split especially around the windows. Whilst many windows were replaced there are still ones that are rotting or have carked or loose glass panes.


## Cyflwr yr Adeilad ac Atgyweiriadau

Rydym wedi cynnal arolwg o gyflwr yr adeiladau. Mae cyflwr cyffredinol yr eiddo wedi'i rannu rhwng yr ardaloedd hynny sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, sy'n cael eu hystyried yn 'Weddol' a'r ardaloedd hynny sy'n wag, sy'n cael eu hystyried yn 'Wael Iawn'. Mae angen ymyrraeth i atal pydredd rhag lledu'n gyflym ar draws adeiladwaith y Castell. Mae atgyweiriadau llawn i adeiladwaith yr adeilad yn costio tua £9m. Prif broblemau'r adeilad yw:

### Y to
Fe wnaeth gosod to newydd yn y 1990au ddiogelu llawer o'r adeiladwaith mewnol ac mae wedi parhau mewn cyflwr da, ac eithrio goleddf to y Gogledd yn y prif Gastell a'r to gwastad o amgylch y llusern. Mae angen ail-doi'r rhain i fynd i'r afael â phroblemau eang gyda theils coll, camosod, gwaith plwm sydd wedi torri a phyllau dŵr yn cronni.

### Cafnau dwr ac ati
Drwy gydol yr adeilad, mae mynediad dŵr yn gyson gysylltiedig â chafnau dŵr ac ati sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael, tyfiant planhigion aeddfed ar waith maen a dim rhaglen ailbwyntio distiau agored. Pan fydd glaw trwm, mae yna fannau lle gellir gweld dŵr yn mynd i mewn i'r adeilad.

### Y welydd a'r ffenestri
Mae'r waliau'n dioddef o ddiffyg pwyntio calch cywir sy'n golygu bod dŵr yn mynd drwodd gan achosi difrod. Y wedd ogleddol a'r wedd ddwyreiniol sy'n cael y lleiaf o haul, felly nid ydynt yn sychu cystal â'r ddau arall. Serch hynny, y wedd ddeheuol a'r wedd orllewinol sy'n wynebu'r prifwyntoedd, sy'n achosi eu dirywiad. Mewn rhai mannau, mae rhwd metel yn achosi i'r gwaith carreg hollti, yn enwedig o amgylch y ffenestri. Er bod nifer o ffenestri wedi'u newid mae yna rai sy'n pydru o hyd neu lle mae'r gwydr wedi cracio neu'n rhydd.




- Considerable plant growth observed which is starting to impede the function of the roof or clearly compromising joints in the masonry.
- Saturated masonry due to water ingress into the stonework.
- Deterioration in stone causing spalling, cracking and/or deterioration in profile
- Cracks and opening joints. Open joints through out the elevation

- Tyfiant planhigion sylweddol sy'n dechrau rhwystro swyddogaeth y to neu'n amlwg yn peryglu cymalau yn y gwaith maen
- Gwaith maen dirlawn wrth i ddŵr dreiddio fewn ir gwaith carreg
- Dirywiad yn y garreg gan achosi holltau cracio a/neu dirywiad mewn proffil
- Craciau a chymalau agoriadol. Uniadau agored trwy'r drychiad

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Parc Gwledig Margam Country Park

cfp people spaces places

Planning Solutions Consulting
Experts in visitor experiences

PURCELL

# THE PRESENT
# Y PRESENNOL

## EARLY CONSULTATION

As part of the HLF options appraisal and feasibility study for the use of Margam Castle, we have conducted surveys with the local community, schools and heritage groups in 2022.

The feedback and findings from the surveys has been used to inform the options shown to you today.

### PUBLIC:

480 members of the public completed an options survey in 2022.

- One-quarter of respondents (23.2%) said that they would like to see the space used to increase the events and activities offer at Margam Country Park,
- 16.7% of respondents answered that they would like to see overnight accommodation introduced and
- 16.5% of respondents said that they would like to see the space used as a museum or exhibition space.

From this consultation it was apparent that the local people are proud of their heritage and would like to see the Castle become a cultural and educational hub to display the heritage of Margam and Port Talbot. Opening more of the castle for public use would be welcomed, there is strong support for exhibition space and learning space, and people were interested in digital ways of building engagement and learning.

*I would like more of the castle accessible to the public*

*"Would love to see it in more regular use"*

*"A tea room or coffee shop, somewhere decent to sit"*

*"More opportunities for school children to learn about the castle"*

*"anything that helps fund itself should be considered, as it is a vastly underused place"*

## YMGYNGHORIAD CYNNAR

Fel rhan o werthusiad opsiynau ac astudiaeth ddichonoldeb Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer defnyddio Castell Margam, rydym wedi cynnal arolygon gyda'r gymuned leol, ysgolion a grwpiau treftadaeth yn ystod 2022.

Defnyddiwyd adborth a chanfyddiadau'r arolygon i lywio'r opsiynau a ddangosir i chi heddiw.

### Y CYHOEDD:

Cwblhaodd 480 o aelodau'r cyhoedd arolwg opsiynau yn 2022

- Cwblhaodd 480 o aelodau'r cyhoedd arolwg o opsiynau yn 2022.
- Dywedodd chwarter yr ymatebwyr (23.2%) yr hoffent weld y gofod yn cael ei ddefnyddio i gynyddu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig ym Mharc Gwledig Margam.
- Atebodd 16.7% o'r ymatebwyr yr hoffent weld llety dros nos yn cael ei gyflwyno, a
- Dywedodd 16.5% yr hoffent weld y gofod yn cael ei ddefnyddio fel amgueddfa neu ofod arddangos.

O'r ymgynghoriad hwn, daeth yn amlwg bod trigolion lleol yn falch o'u treftadaeth ac yr hoffent weld y Castell yn troi'n hwb celfyddydol ac addysgiadol i arddangos treftadaeth Margam a Phort Talbot. Byddai agor mwy o'r castell at ddibenion cyhoeddus yn cael ei groesawu, ceir cefnogaeth gref am ofod arddangos a gofod dysgu ac roedd gan bobl ddiddordeb mewn ffyrdd digidol o feithrin ymgysylltu a dysgu.

*"Hoffwn weld mwy o'r castell yn agored i'r cyhoedd"*

*"Byddwn wrth fy modd yn ei weld yn cael ei ddefnyddio'n fwy rheolaidd"*

*"Ystafell de neu gaffi, rhywle braf i eistedd"*

*"Mwy o gyfleoedd i blant ysgol ddysgu am y castell"e"*

"dylid ystyried unrhyw beth sy'n helpu i'w ariannu ei hun, gan ei fod yn lle sy'n cael ei danddefnyddio'n sylweddol"





### SCHOOLS:

18 schools replied to a survey, all were interested in using Margam Castle as an educational facility and resource in future. Most popular areas of the curriculum where children could learn from Margam Country Park were art and design (75%), Geography and History as joint second (69%) and Physical Education (56%).

Increased educational resources and materials, whether this is pre-planned activities led by park staff or additional resources such as iPad, map trails or craft resources which can be readily used by schools would encourage 75% of schools to visit more often. 19% said improved accessibility would encourage them to visit in the future. This includes changing facilities, resources for children with Special Educational Needs and wheelchair accessibility. From a design perspective consideration of increased accessibility generally and including a space that could function as a classroom has came out of this consultation.

Subsequent consultation has also been carried out through LLAN, the network of headteachers.

### HERITAGE GROUPS:

A heritage groups survey was conducted online to identify the views of local heritage groups, as well as potential future uses for the Castle. All groups consulted agreed that an exhibition space and spaces to learn about the history of Margam were a good idea, A new café/catering offer also scored highly. The majority would like to use the space for events and activities.

All consultation so far has clearly shown a high demand for educational and interpretation space which could also host exhibitions and activities – we have taken this on board and you will see that the options designs have a large amount of space on the ground floor for these uses and also an idea to use on room on the first floor so that visitors can go up the main staircase and appreciate the views out over the grounds

Accommodation has also been supported and this is needed in order to generate income to sustain the castle in the future but not so much that the community cannot still enjoy the interior. Sketch ideas are intended to give the public more access than ever before.

A cafe in the castle has also been well received so we have looked at how we might fit this in and how external spaces could be used to provide more seating.

There was significant concern about the castle becoming too commercial especially office space for businesses and that has not been included.

### YSGOLION:

Ymatebodd 18 o ysgolion i'r arolwg, gyda phob un â diddordeb mewn defnyddio Castell Margam fel cyfleuster ac adnodd addysgol yn y dyfodol. Y pynciau mwyaf poblogaidd o'r cwricwlwm y gallai plant ddysgu ohonyn nhw ym Mharc Gwledig Margam oedd Celf a Dylunio (75%), Daearyddiaeth a Hanes yn gydradd ail (69%) ac Addysg Gorfforol (56%).

Byddai mwy o adnoddau a deunyddiau addysgol, boed yn weithgareddau a gynlluniwyd ymlaen llaw o dan arweiniad staff y parc neu adnoddau ychwanegol fel iPad, mapiau llwybro neu adnoddau crefft y gellir eu defnyddio'n hawdd gan ysgolion, yn annog 75% o ysgolion i ymweld yn amlach. Dywedodd 19% y byddai hygyrchedd gwell yn eu hannog i ymweld yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau newid, adnoddau i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig a hygyrchedd i gadeiriau olwyn. O safbwynt cynllunio, roedd ystyriaeth i fwy o hygyrchedd yn gyffredinol a chynnwys gofod a allai weithredu fel ystafell ddosbarth yn amlwg yn yr ymgynghoriad hwn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad dilynol hefyd drwy LLAN, rhwydwaith y prifathrawon.

### GRWPIAU TREFTADAETH:

Cynhaliwyd arolwg i grwpiau treftadaeth ar-lein er mwyn cael barn grwpiau treftadaeth lleol yn ogystal â darpar ddefnyddwyr y Castell. Cytunodd yr holl grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw y byddai'n syniad da cael gofod arddangos a mannau i ddysgu am hanes Margam. Cafodd caffi/trefniant arlwyo newydd sgôr uchel hefyd. Hoffai'r rhan fwyaf ddefnyddio'r gofod ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau.

Mae'r holl ymgynghori hyd yma wedi dangos yn glir bod galw mawr am ofod addysgol a dehongli a allai hefyd gynnal arddangosfeydd a gweithgareddau – rydym wedi ystyried hyn ac fe welwch fod cynlluniau'r opsiynau yn cynnwys cryn dipyn o le ar y llawr gwaelod ar gyfer y dibenion hyn a hefyd syniad i ddefnyddio un ystafell ar y llawr cyntaf fel y gall ymwelwyr fynd i fyny'r prif risiau a gwerthfawrogi'r golygfeydd dros y gerddi.

Mae llety hefyd wedi ei gefnogi ac mae angen hyn i gynhyrchu incwm i gynnal y castell yn y dyfodol, ond nid i'r fath raddau fel na all y gymuned fwynhau'r tu mewn o hyd. Bwriad y bras syniadau yw rhoi mwy o fynediad i'r cyhoedd nag erioed o'r blaen.

Mae caffi yn y castell hefyd wedi'i groesawu felly rydym wedi edrych ar sut gellir ffitio hyn i mewn a sut gellir defnyddio mannau allanol i ddarparu mwy o seddi.

Roedd pryder sylweddol ynglŷn â'r castell yn dod yn rhy fasnachol yn enwedig gosod gofod swyddfa i fusnesau, ac nid yw hynny wedi'i gynnwys.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council
Parc Gwledig Margam Country Park
cfp people spaces places
Planning Solutions Consulting Experts in visitor experiences
PURCELL

# MARGAM CASTLE REGENERATION ADFYWIO CASTELL MARGAM

## THE FUTURE
## Y DYFODOL

We have looked at several options for Margam Castle. These options look to:

- Increase the amount of public access in the castle
- Create spaces to share the history and castle heritage.
- Ensure we protect the bats living in the Castle.
- An improved café and food offer. This will be supplemented by the existing kiosk.
- Create spaces for adult learning and enhanced school visits
- Ways to generate crucial income to help support the maintenance of the building and ensure the long-term future of the castle and surrounding buildings. The options include self-catered accommodation, retail, outdoor pursuit activities and workshop spaces.
- Ensure we improve the sustainability credentials of the building
- Office and welfare spaces for the running of the site

### KEY

- OFFICES
- EDUCATION
- CIRCULATION
- MULTI-USE
- STORAGE / PLANT
- RETAIL / CRAFT
- CAFE
- ECOLOGICALLY SENSITIVE AREA
- RESIDENTIAL
- INTERPRETATION
- WCs

Rydym wedi edrych ar sawl opsiwn ar gyfer Castell Margam. Bwriad yr opsiynau hyn yw:

- Cynyddu faint o le sydd yna i'r cyhoedd yn y castell.
- Creu mannau i rannu hanes a threftadaeth y castell.
- Sicrhau ein bod yn gwarchod y ystlumod sy'n byw yn y Castell.
- Gwell caffi a threfniant bwyd. Ategir hyn gan y ciosg presennol.
- Creu mannau ar gyfer dysgu oedolion a gwella ymweliadau ysgolion
- Ffyrdd o gynhyrchu incwm hollbwysig i helpu i gefnogi cynnal a chadw'r adeilad a sicrhau dyfodol hirdymor y castell a'r adeiladau cyfagos. Mae'r opsiynau'n cynnwys llety hunanarlwyo, manwerthu, gweithgareddau awyr agored a lle i weithdai.
- Sicrhau ein bod yn gwella rhinweddau cynaliadwyedd yr adeilad.
- Gofod swyddfa a llesiant i redeg y safle.

### ALLWEDD

- SWYDDFEYDD
- ADDYSG
- CYLCHREDIAD
- AML-DDEFNYDD
- STORIO / OFFER
- MANWERTHU / CREFFT
- CAFFI
- ARDALOEDD ECOLEGOL SENSITIF
- PRESWYL
- DEHONGLIAD
- TOILEDAU

### OPTION 1

Minimal Intervention

- Emphasis upon a large amount of overnight accommodation, primarily using mezzanine and first floors
- Café is located within existing location

### OPSIWN 1

Amharu cyn lleied â phosib ar bethau

- Pwyslais ar lawer iawn o lety dros nos, drwy ddefnyddio'r mesanîn a'r llawr cyntaf yn bennaf
- Mae'r caffi yn y lleoliad presenno

### OPTION 2


Some alterations to internal layout


- The principal rooms on the first floor are publicly accessible
- Overnight accommodation is largely moved to the courtyard
- Retail units/artist studios on the ground floor of the castle


### OPSIWN 2


Rhai newidiadau i'r diwyg mewnol


- Prif ystafelloedd y llawr cyntaf yn hygyrch i'r cyhoedd
- Llety dros nos yn cael ei symud gan fwyaf i'r cwrt
- Unedau manwerthu/stiwdios artistiaid ar lawr gwaelod y castell








NOT TO SCALE




NOT TO SCALE

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Parc Gwledig Margam Country Park

cfp
people spaces places

Planning Solutions Consulting
Experts in visitor experiences

PURCELL


# THE FUTURE
# Y DYFODOL

## KEY


- OFFICES
- EDUCATION
- CIRCULATION
- MULTI-USE
- STORAGE / PLANT
- RETAIL / CRAFT
- CAFE
- ECOLOGICALLY SENSITIVE AREA
- RESIDENTIAL
- INTERPRETATION
- WCs

## ALLWEDD


- SWYDDFEYDD
- ADDYSG
- CYLCHREDIAD
- AML-DDEFNYDD
- STORIO / OFFER
- MANWERTHU / CREFFT
- CAFFI
- ARDALOEDD ECOLEGOL SENSITIF
- PRESWYL
- DEHONGLIAD
- TOILEDAU



FIRST FLOOR PLAN / CYNLLUN LLAWR CYNTAF



MEZZANINE FLOOR PLAN / CYNLLUN LLAWR MESANIN



GROUND FLOOR PLAN / CYNLLUN LLAWR GWAELOD

*NOT TO SCALE*

## OPTION 3

**Minimal intervention**

- Emphasis upon flexible interpretation across the ground floor
- Some public access on the first floor with views across the parkland
- Creation of an artist workshop and courtyard

## OPSIWN 3

**Amharu cyn lleied â phosib ar bethau**

- Pwyslais ar ddehongli hyblyg ar draws y llawr gwaelod
- Rhywfaint o fynediad i'r cyhoedd ar y llawr cyntaf gyda golygfeydd ar draws y parcdir
- Creu gweithdy a chwrt i artistiaid

## WHAT HAPPENS NEXT?

We will collate and review all of the comments we receive during this exhibition – please do leave us comments on the survey provided. If you know of other people that we ought to speak to also let us know.

We are speaking to local councillors to gather their views as well so please feel free to share your thoughts with them so that they can also help to represent you.

The options designs need to be discussed with Cadw so that they can advise on anything that they might consider detrimental to the building or wider landscape and we need to talk to them about getting the castle onto the At-Risk Register.

We also need to agree a scheme for protecting the bat species in the castle with Natural Resources Wales and the council's ecologists.

Once we have done all of that we need to refine our options, cost them and think about how they could be funded and how they could be phased over time.

We will be talking to Cadw, National Lottery Heritage Fund and Welsh Government about possible funding sources as we need as many organisations as possible to contribute financially if we are to realise our vision.

We are aiming to arrive at a final preferred scheme by July 2023 with a bid to the National Lottery Heritage Fund later this year, the scale of which will be dependent on our discussions with them over the next few months.

In addition to this we will continue working with Swansea and Cardiff Universities to look for other funding to further develop ideas around digital interpretation and a government grant to look at developing a new educational offer at the castle.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Byddwn yn casglu ac yn adolygu'r holl sylwadau a dderbyniwn yn ystod yr arddangosfa hon - gadewch sylwadau i ni ar yr arolwg a ddarparwyd. Os ydych chi'n gwybod am bobl eraill y dylem siarad â nhw, rhowch wybod i ni hefyd.

Rydym yn siarad â chynghorwyr lleol i gael eu barn hefyd, felly mae croeso i chithau rannu eich barn gyda nhw fel y gallan nhw hefyd helpu i'ch cynrychioli chi.

Mae angen trafod cynlluniau'r opsiynau gyda Cadw fel y gallant roi cyngor ar unrhyw beth y gallent ei ystyried yn niweidiol i'r adeilad neu'r dirwedd ehangach ac mae angen i ni siarad â nhw am roi'r castell ar y Gofrestr Mewn Perygl.

Mae angen i ni hefyd gytuno ar gynllun i warchod y rhywogaethau o ystlumod yn y castell gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegwyr y cyngor.

Ar ôl i ni wneud hyn i gyd, mae angen i ni fireinio ein hopsiynau, paratoi'r costau a meddwl sut gellid eu hariannu a sut gellid eu cyflwyno fesul cam dros amser.

Byddwn yn siarad â Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru ynglŷn â ffynonellau ariannu posib gan fod angen cymaint o sefydliadau â phosib i gyfrannu'n ariannol os ydym am wireddu ein gweledigaeth.

Rydym yn anelu at ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynllun terfynol sy'n cael ei ffafrio erbyn Gorffennaf 2023 gyda chais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol nes ymlaen eleni, y bydd ei faint yn dibynnu ar ein trafodaethau gyda nhw yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda Phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd i chwilio am fathau eraill o gyllid i ddatblygu syniadau pellach ynglŷn â dehongli digidol a grant oddi wrth y llywodraeth sy'n edrych ar ddatblygu arlwy addysgol newydd yn y castell.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Cyngor Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot Council
Parc Gwledig Margam Country Park
cfp people spaces places
Planning Solutions Consulting Experts in visitor experiences
PURCELL